# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PWLLHELI**

Dyddiad ac Amser

**6.00 y.h., DYDD MAWRTH, 5ED MAWRTH, 2024**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

***I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni***

Pwynt Cyswllt

**Rhodri Jones**

**01286 679256**

**Rhodrijones1@gwynedd.llyw.cymru**

## AELODAETH:

### Cyngor Gwynedd:

Hefin Underwood
Elin Hywel
Richard Glyn Roberts

### Aelodau Cyfetholedig:

| | |
|---|---|
| Barry Simmons | Cymdeithas Deiliaid Angorfeydd Marina Pwllheli |
| Stephen Tudor | Clwb Hwylio Pwllheli |
| Michael Sol Owen | Plas Heli |
| Wil Partington | Cymdeithas Masnachwyr Morwrol Pwllheli |
| Andrew Picken | Siambr Fasnach Pwllheli |
| Alwyn Roberts | Sefydliad y Bad Achub Pwllheli |
| Cyng. Mike Parry | Cyngor Tref Pwllheli |
| Ifor Hughes | Cymdeithas Perchnogion Cychod Pwllheli a'r Cylch |

### Sylwedyddion:

Desmond George
David Williams
Gwilym Jones

# RHAGLEN


## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd.

## 4. COFNODION 4 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 10 Hydref, 2023 fel rhai cywir.

## 5. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR 9 - 14

Cyflwyno adroddiad Rheolwr Masnachol Hafan a Harbwr Pwllheli.

## 6. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Nodi y cynhelir cyfarfod nesaf Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli ar 08 Hydref, 2024 (yn ddarostyngedig i'w gadarnhau gan y Cyngor Llawn).

# PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PWLLHELI 10/10/2023

**PRESENOLDEB :**

**Cyngor Gwynedd:** Y Cynghorydd Hefin Underwood (Cadeirydd), Y Cynghorydd Elin Hywel a'r Cynghorydd Nia Jeffreys (Aelod Cabinet Economi a Chymuned)

**Aelodau Cyfetholedig:** Jenny Moss (Cynrychioli Cymdeithas Deiliaid Angorfeydd Marina Pwllheli), Cynghorydd Mike Parry (Cynrychioli Cyngor Tref Pwllheli), William Partington (Cynrychioli Cymdeithas Masnachwyr Morwrol Pwllheli) a Stephen Tudor (Cynrychioli Clwb Hwylio Pwllheli

**Swyddogion :** Gerwyn Owen (Rheolwr Masnachol Hafan a Harbwr Pwllheli), Llŷr B Jones (Pennaeth Cynorthwyol Adran Economi a Chymuned), Einir Rh Davies ac M Eirian Roberts (Gwasanaethau Democratiaeth) a'r Cyfieithwyr

**Eraill yn Bresennol yn Arsylwi** : Desmond George (Sylwedydd, Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi), Ruth James (Ysgrifennydd Cymdeithas Deiliaid Angorfeydd Marina Pwllheli), Y Cynghorydd Gwilym Jones (Sylwedydd, Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog) a Barry Simonds (Cymdeithas Deiliaid Angorfeydd Marina Pwllheli)

Ar gychwyn y cyfarfod, bu i'r Cadeirydd gydymdeimlo a Stephen Tudor yn dilyn ei brofedigaeth ddiweddar o golli ei fam ac ategodd y Pwyllgor eu cydymdeimlad.

## 1. ETHOL CADEIRYDD

Etholwyd Y Cynghorydd Hefin Underwood yn Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer y cyfnod 2023-24

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

Etholwyd Y Cynghorydd Elin Hywel yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer y cyfnod 2023-24

## 3. YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorydd Michael Sol Owen (Cynrychioli Plas Heli Pwllheli), Alwyn Roberts ac Andy Vowell (Cynrychioli Sefydliad y Bad Achub Pwllheli)

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 5. MATERION BRYS

Cymerodd y Cadeirydd y cyfle i holi beth oedd y posibilrwydd o gynnal y cyfarfod o amgylch y Bwrdd ar gyfer Mawrth 2024? Nododd bod llawer o'r Aelodau yn dymuno ei gynnal wyneb yn wyneb a llawer o'r cyhoedd yn holi paham nad oedd wyneb i wyneb? Cytunodd y Cadeirydd i ysgrifennu llythyr ar ran y Pwyllgor i'r perwyl hwn. Yn ychwanegol, gofynnwyd a fyddai posib ystyried cyfarfod yn ystod y dydd yn hytrach na gyda'r nos? Cwestiynodd yr Aelod Cabinet ai cyfarfod hybrid oedd dan sylw, a nodwyd y mwyaf fyddai o gwmpas y bwrdd y gorau fyddai hyn.

## 6. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o’r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 14 Mawrth, 2023 fel rhai cywir.

**7. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL A GWEITHREDOL YR HARBWR**

Cyfeiriwyd at yr adroddiad oedd wedi ei chreu gan Reolwr Masnachol Hafan a Harbwr Pwllheli gan adrodd fel a ganlyn :

**1.1 Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd**

Cadarnhawyd ei bod yn parhau i fod yn flaenoriaeth gan yr Uwch Swyddog Harbwr, ynghyd â'r Rheolwr Gwasanaeth Morwrol newydd, Bryn Pritchard Jones, i ddiweddaru'r Côd Diogelwch ar gyfer pob harbwr yng Ngwynedd. Atgoffwyd pawb eto, i gysylltu os oedd unrhyw drafferth.

**1.2 Carthu’r Sianel**

Adroddwyd bod carthu’r sianel yn parhau i fod yn her er bod gwaith cydweithio gyda YGC wedi ei wneud i gynnal gwerthusiad. Yr opsiwn llawn fyddai i gynnal y basn, sianel a cheg yr Harbwr. Nodwyd bod YGC wedi bod yn aflwyddiannus yn cael eu grant eleni a maethu Cerrig y Defaid.

Nodwyd mai un opsiwn fyddai gwagio y ‘stilling lagoon’ ond fod y gost o £1miliwn wedi ei rhoi trwy dendr ar y gwaith. Mae trafodaethau yn parhau gyda y cwmni i weld a oes datrysiad gwell. Cadarnhawyd y bydd y tendr i garthu basn y marina allan yn fuan, ond mai y prif fater oedd ble i roi y gwaddod. Er gwybodaeth, adroddwyd bod yr Arweinydd a’r Aelod Cabinet wedi gofyn am adroddiad ar y sefyllfa.

Codwyd pryder na lwyddodd YGC i gael y grant eleni i faethu traeth Cerrig y Defaid, sydd yn meddwl fod y tywod ar geg yr harbwr i’w werthu yn ei gyfanrwydd. Cadarnhawyd mai ar gyfer y flwyddyn hon maent wedi bod yn aflwyddiannus a’u bod yn edrych ar y Cynllun Llifogydd tymor hir, gan gadarnhau bod gwagio ceg yr Harbwr yn fater blynyddol ac yn gost niwtral i’r Hafan ar hyn o bryd.

Cwestiynwyd ymhellach y pryder o ran ceg yr Harbwr gan holi tybed a oes unrhyw un wedi edrych ar y sefyllfa yn greadigol? Megis ei chwythu gyda phwmp ar hyd traeth megis Traeth Glandon? Mantais hyn fyddai y gost gan mai unwaith yn unig fyddai angen ei symud.
Atgoffodd y Rheolwr Masnachol Hafan a Harbwr Pwllheli fod Traeth Glandon o dan reolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a’u bod wedi gwrthod y tywod oherwydd nid oedd yn cyrraedd y safonau bioamrywiaeth, a bod eisoes cyd-weithio ar y Cynllun Risg Llifogydd.

Atgoffodd y Cadeirydd bawb bod cyfarfod wedi ei drefnu yn Siambr y Cyngor Tref gyda Chyfoeth Naturiol Cymru ac estynnwyd gwahoddiad i Reolwr Masnachol Hafan a Harbwr Pwllheli ac unrhyw aelod o’r Pwyllgor fynychu y cyfarfod ar 22/11/23.

Nodwyd bod y sefyllfa carthu yn rhwystredig a bod y basn mewn angen dirfawr o’i garthu a holiwyd beth yw y rhagolygon o ran gwneud y gwaith carthu?

Adroddodd y Rheolwr Masnachol Hafan a Harbwr Pwllheli bod y Gwasanaeth yn gweithio mor galed â phosib ac yn ceisio gwneud gwaith. Adroddodd bod lle bychan yn y lagwnau ac mae’r bwriad fyddai defnyddio y lagwnau tra bod y trafodaethau ar y gweill.

Roedd un Aelod yn teimlo bod llwyddiant yr Hafan a’r Harbwr yn dibynnu ar y gwaith carthu, gydag incwm o £1.8 miliwn, ac yn wirioneddol nad oedd rheswm i beidio â darganfod yr arian i wneud y gwaith, a’i wneud ar frys. Cwestiynodd, onid fyddai modd gosod rhaglen iawn o waith, a gosod y

gwaith hwn fel y gwaith pwysicaf. Yn ychwanegol, holiwyd onid oes angen ei wneud i gydymffurfio a Strategaeth 2016?

Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet ei bod yn clywed y neges yn glir ac yn sylweddoli ei fod yn fater pwysig iawn. Diolchodd i Reolwr Masnachol Hafan a Harbwr Pwllheli a'r Pennaeth Cynorthwyol Adran Economi a Chymuned am eu gwaith a'r bartneriaeth sydd gyda CNC gan nodi y byddai yn herio y sefyllfa.

Adroddodd Pennaeth Cynorthwyol Adran Economi a Chymuned ei fod yntau yn rhannu y rhwystredigaeth ynglŷn ar sefyllfa carthu, gan gadarnhau mai y prif rwystr yw beth i wneud gyda y gwaddod. Cadarnhaodd bod y syniad o'i bwmpio i'r môr wedi ei wrthod a bod gwaith o gyd-weithio gyda chwmnïau preifat heb ddod a datrysiad. Cadarnhaodd eu bod wedi ail-edrych ar yr opsiynau hefyd. Cadarnhaodd mai CNC sydd nawr yn arwain ar y gwaith llifogydd a bod angen ail-edrych ar faterion cynhennus maes o law.

Cadarnhaodd bod dymuniad i gael datrysiad, ac nad oherwydd diffyg ariannol nac ymgais oeddynt yn y sefyllfa bresennol.

Nododd y Cadeirydd bod angen bod mwy cadarn gyda CNC a bod yn barod i'w herio.

### 1.3 Materion Ariannol

Cadarnhaodd y Rheolwr Masnachol Hafan a Harbwr Pwllheli bod yr elw y cyfeiriwyd ato uchod wedi ei ymrwymo ond bod 3 gronfa - carthu, gwelliannau a chychod, a bod cyfleoedd weithiau yn codi i gael pethau newydd.

Cyfeiriodd at yr holiadur PMBHA oedd wedi tynnu sylw at y diffyg cysylltiad wifi a materion yn ymwneud a'r maes parcio. Cadarnhaodd bod y sefyllfa wifi yn llwyddiannus erbyn hyn a bod gosod paneli solar a mannau gwefru ceir trydan ar waith, gyda phrosiect yn ei le, ond dim amserlen.

Nododd bod yr Adroddiad Incwm yn cadarnhau bod yr Hafan a'r Harbwr wedi cyrraedd y targed er ei bod wedi bod yn flwyddyn ddistaw, gyda llai o ymwelwyr a llai o gychod wedi mynd allan. Adroddwyd bod hyn yn rhannol oherwydd y tywydd ac yn rhannol oherwydd y sefyllfa costau byw.

Adroddwyd bod y deiliaid angorfeydd yn hapus gyda y gwelliannau, gan gadarnhau nawr bod rhai o'r cychod mawr wedi symud ymlaen bod y lle yn edrych yn dda. Adroddwyd mai y peth pwysicaf yw gwybod faint fydd y ffioedd fel y gall pobl gyllidebu, ac erfyniwyd i gael gwybod cyn gynted â phosib. Yn ychwanegol, nodwyd gan fod costau trydan wedi gostwng yn ystod y flwyddyn bod pobl yn edrych i adfer rywfaint. Adroddodd hefyd bod cost y tanwydd yn fater o bryder, a'i fod tua 20c yn ddrytach na garejys lleol, a'r gobaith y byddai yn dod i lawr yn ei bris.

Adroddwyd bod nifer yr ymwelwyr wedi haneru a chwestiynwyd sawl cwch oedd wedi ei throi i ffwrdd, gan nodi bod ymwelwyr yn gwario yn y Dref. Nodwyd petai y piles yn dda, byddai pontwns yn hynod fanteisiol a nodwyd bod angen edrych ar fwy o bontwns.

Cadarnhaodd y Rheolwr Masnachol Hafan a Harbwr Pwllheli eu bod wedi derbyn nifer is o alwadau ac nad oeddynt yn gwrthod neb oddi ar y môr. Nododd ei fod wedi gweld gwahaniaeth flwyddyn yma ac yn derbyn y sylwadau uchod.

Cyfeiriwyd at ymgynghoriad sydd ymlaen ar hyn o bryd, sydd yn cadarnhau nad y Cyngor yn unig fydd yn arwain ar y Strategaeth, ac nad yw yr arian ar gael i gynnal popeth sydd yn y Cynllun.

Cwestiynwyd y sefyllfa is-osod a chadarnhawyd nad yw y Cyngor yn edrych ar is-osod angorfeydd, ond petaent yn edrych ar is-osod byddai costau blynyddol wedyn, o ganlyniad, yn codi. Cadarnhawyd nad yw marinas eraill lleol yn ei gynnig a bod Hafan a Harbwr mewn lle da ar hyn o bryd, ond y byddai modd ei ystyried petai y sefyllfa yn newid.

Cyfeiriwyd at restrau aros blaenorol oedd wedi codi o 0, i 75 i 222. Cadarnhawyd bod sefyllfa debyg wedi bodoli o'r blaen ac mai yr ymateb oedd codi y ffi, ond codwyd y pryder bod modd gorgodi ffioedd. Cywirwyd yr uchod gan gadarnhau bod Plas Heli yn is-osod ond ei fod yn creu llawer o waith a'r manteision yn fychan.

Nodwyd bod Hafan a Harbwr yn llawn, bod rhestr aros yn ymddangos yn helaeth, ond drwy grafu drwy y rhestrau aros ei bod wedi dod yn fwy amlwg bod y farchnad yn fregus a bod hyn wedi ei nodi i'r Cyngor fel risg. Nodwyd bod y farchnad yn un heriol, a bod llawer o ymholiadau yn dod i mewn o ran pobl eisiau gwerthu eu cychod.

### 1.4 Ffioedd a Thaliadau 2023/2024

Cadarnhawyd bod y Rheolwr Masnachol Hafan a Harbwr Pwllheli a'r Pennaeth Cynorthwyol Adran Economi a Chymuned yn awyddus i gael y prisiau allan cyn gynted â phosib. Cadarnhaodd mai y cynnig gerbron y Cabinet fydd codi ffioedd yn unol â chwyddiant. Cyfeiriodd at heriau sydd wedi dod yn amlwg, megis cychod yn rhoi badau dwr ynghlwm ynddynt a bod angen edrych ar ffioedd yn sgil hyn. Cadarnhawyd bod y gwaith papur yn ei le a bod disgwyl i Benaethiaid edrych arno maes o law.

Mynegwyd pryder y byddai y Cyngor yn torri yn ôl yn y maes, gan gwestiynu onid cadw yr iâr sydd yn dodwy byddai orau a bwysicaf?

Adroddodd y Rheolwr Masnachol Hafan a Harbwr Pwllheli bod arbedion a thoriadau wedi eu gwneud flwyddyn ddiwethaf drwy beidio â llenwi swydd, codi lefi tanwydd a derbyn ad-daliad o Stad y Goron. Cadarnhawyd nad oes toriadau ar restr Hafan a Harbwr ar hyn o bryd.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelod Cabinet adrodd yr uchod i'r Cabinet a chadarnhaodd yr Aelod Cabinet ei bod yn clywed y neges. Adroddodd yr Aelod Cabinet ei bod yn derbyn cyflwyniad 11/10/23 ar sefyllfa ariannol y Cyngor ac mai rôl Aelodau fyddai dewis a dethol y ffordd ymlaen. Cadarnhaodd hefyd, yn dilyn cyfarfod gyda'r Gweinidog Cyllid na fydd Gwynedd yn ymwybodol o'r setliad nes 18/12/23.

Adroddwyd ar ran y deiliaid angorfeydd y balchder eu bod yn cael gwerth am arian, ac wrth dderbyn y sylwadau ynglŷn â diffyg ymwelwyr, byddai rhai morwyr yn hoffi ad-daliad megis is-osod, ond yn amlwg yn deall y rhesymeg. Yn amlwg pan mae yr angorfeydd yn llawn, nid oes angen ystyried hyn ond gofynnwyd i'r posibiliadau gael eu gadael yn agored.

Cwestiynwyd pryd fydd y system ar-lein ar gyfer angorfeydd a thaliadau yn barod? Cadarnhawyd bod y system Havenstar mewn trafodaethau gyda'r Adran Gyllid, gan nad yw y Rheolwr Masnachol Hafan a Harbwr Pwllheli yn ymwneud a'r ochr ariannol. Cadarnhawyd y bydd y cytundeb blynyddol yn cael ei ddanfon drwy e-bost er mwyn gwneud y broses yn haws a lleihau costau postio.

### 1.5 Eitemau Gweithredol

**Mordwyo -** cadarnhawyd nad oedd unrhyw rybuddion ar hyn o bryd. Adroddwyd bod llain o forwellt ar draeth Abererch a Cherrig y Defaid ar hyn o bryd

**Staffio** - adroddwyd bod Andy Green yn gwella ac yn cryfhau a bod y Rheolwr Masnachol Hafan a Harbwr Pwllheli mewn cyswllt ag o, a'r gobaith y daw adref yn fuan. Adroddwyd ei bod wedi bod yn sefyllfa heriol, gan fod Andy yn aelod o staff canolog i lwyddiant yr Hafan. Gofynnodd y Cadeirydd i neges o wellhad buan gael ei ddanfon ato ar ran y Pwyllgor.

Cwestiynwyd lleoliad y morwellt gan gwestiynu tybed a oedd rhai yn angora yn y safle hwn? Cadarnhawyd bod angorfeydd bloc yn yr ardal hon, a nodwyd os yw y morwellt yn rhwystr onid yw

angorfeydd dros dro yn bwysicach? Cadarnhaodd y Rheolwr Masnachol Hafan a Harbwr Pwllheli nad yw yn agos i'r brif fynedfa ond cytunodd i wirio y sefyllfa.

**Cynllun Strategol** - cadarnhawyd bod cyfarfod cychwynnol wedi cymryd lle gyda yr Ymgynghorwyr, ond eu bod wedi bod yn wael iawn dros yr Haf. Cadarnhawyd eu bod yn dod yn ôl i'r ardal 12 ac 13 o Hydref ac y bydd cyfle am sgwrs neu gyfarfodydd un i un i drafod syniadau am yr ardal dan sylw sef Cei Gogledd, Hen Ynys, Harbwr Allanol, Harbwr Mewnol a Chae Ceffyl a gobeithiwyd y bydd yr Adroddiad yn barod erbyn y Nadolig 2023.

**PENDERFYNWYD** :

Nodi a derbyn yr adroddiad.

## 8. MATERION I'W HYSTYRIED AR GAIS AELODAU Y PWYLLGOR YMGYNGHOROL

Hysbyswyd y Pwyllgor, er gwybodaeth, bod saith digwyddiad wedi cymryd lle eisoes o Blas Heli a bod rhestr lawn o ddigwyddiadau wedi eu cynllunio ar gyfer y dyfodol.

## 9. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Nodwyd y bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 5 Mawrth, 2024 am 6.00 pm

Dechreuodd y cyfarfod am 6.00 pm a daeth i ben am 7.10 pm.

Diolchwyd i bawb am eu cyfraniadau gwerthfawr.

**CADEIRYDD.**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli** |
| **DYDDIAD** | **5ed o Fawrth, 2024** |
| **TEITL** | **Diweddariad ar Faterion Rheoli a Gweithredol yr Harbwr** |
| **AWDUR(ON)** | **Rheolwr Masnachol ac Is-reolwr Hafan a Harbwr Pwllheli** |

**Cyflwyniad**

Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion yn ymwneud â rheoli, gwarchod a datblygu'r Harbwr a derbyn sylwadau aelodau ar faterion yn ymwneud â Harbwr Pwllheli.
Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad byr i'r Pwyllgor ar faterion yr harbwr am y cyfnod yn diweddu diwedd Chwefror 2024, er mwyn cael adborth gan yr aelodau ar faterion diogelwch a materion gweithredol yr Harbwr.

Mae Pwyllgor Harbwr Pwllheli yn Bwyllgor Harbwr anstatudol, a sefydlwyd yn unol â chymeradwyaeth a chefnogaeth y Cyngor. Mae'r caniatâd yn darparu bod pymtheg (15) o aelodau yn gwasanaethu ar Bwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli. Mae rhestr gynhwysfawr o'r grwpiau a'r sefydliadau sy'n cael eu cynrychioli ar bwyllgor yr Harbwr yn y rhaglen.

Yn unol â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor, bydd gofyn i gynrychiolwyr pob grŵp a sefydliad ddarparu tystiolaeth o'u cyfansoddiad i'r Cyngor ynghyd â llythyr gan eu sefydliad yn cadarnhau enw eu cynrychiolydd. Nid yw'r uchod yn berthnasol i aelod o'r Cyngor Sir, Tref neu Gymuned.

**1.1 Cod Diogelwch Morwrol Porthladdoedd.**

Mae'r Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd (PMSC) yn nodi'r safon genedlaethol ar gyfer pob agwedd ar ddiogelwch morol porthladdoedd. Ei nod yw gwella diogelwch i bawb sy'n defnyddio neu'n gweithio yn amgylchedd morol porthladdoedd. Mae'n berthnasol i bob Awdurdod Harbwr Statudol.

Mae'r Cod yn cynrychioli arfer da a gydnabyddir gan ystod eang o rhanddeiliaid yn y diwydiant ac mae Cyngor Gwynedd yn deall y gall peidio â glynu at arfer da fod yn arwydd o awdurdod harbwr yn torri dyletswyddau cyfreithiol penodol. Mae'n ofynnol i'r Gwasanaeth dderbyn sylwadau a barn Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol ar addasrwydd y Cod Diogelwch Morwrol a derbyn sylwadau cyson ar ei gynnwys, fel y gellir ei adolygu a'i fod yn berthnasol i weithgaredd yr harbwr, mordwyo. cymhorthion, addasrwydd is-ddeddfau, materion diogelwch a gwaith cyffredinol o ddydd i ddydd yn Harbwr Pwllheli.

Mae'n flaenoriaeth gan yr Uwch Swyddog Harbwr, ynghyd â'r Rheolwr Gwasanaeth Morwrol, i ddiweddaru'r Cod Diogelwch ar gyfer pob harbwr yng Ngwynedd.

**1.2 Carthu**

Mae'r carthu yn parhau i fod yn her, ac mae'r uned yn parhau i weithio'n galed i ddod o hyd i ateb hirdymor i'r mater. Gan weithio gydag Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC), mae pob opsiwn yn cael ei roi at ei gilydd i edrych ar yr holl bosibiliadau.

Mae gwerthusiad opsiynau llawn wedi cael ei ddatblygu ar gyfer Cyngor Gwynedd gan YGC ac mae'r holl opsiynau sydd ar gael wedi eu cyflwyno i'r Uwch Dîm Rheoli a Thîm Arweinyddiaeth Cyngor Gwynedd heddiw yma, yn amlygu'r heriau a'r cynllun hirdymor sydd angen ar gyfer sicrhau dyfnder cynlluniedig.

Mae ceg yr harbwr i'w garthu mis yma, a'r gobaith oedd bod y twmpath tywod wedi ei waredu cyn yr ymgyrch diweddar. Yn anffodus roedd rhaid gohirio'r gwarediad yn ddiweddar, gyda'r gobaith gawn glirio'r safle dros y gaeaf nesaf.

Mae gwaith ar gychwyn wythnos nesaf i wagio'r lagŵn distyllu, cyn ymgyrch carthu ar fasn y marina yn y gwanwyn. Noder mai ond traean o’r llaid bydd yn cael ei chlirio o’r basn, ond fod yr ymgyrch yn targedu mannau uchaf yn yr ardaloedd pwysicach, yn dilyn yr arolwg diweddar.

**1.3 Materion Ariannol**

Mae crynodeb o gyllideb yr Harbwr Allanol a Hafan Pwllheli ynghlwm i’r adroddiad hwn.

Yn ystod cyfnod yr hydref a’r gaeaf, bu’n rhaid ymrwymo adnoddau ariannol ychwanegol o’r cronfeydd i’r meysydd gwaith a ganlyn:-

• Cwblhau uwchraddio'r compownd diogel, gan gynnwys pwyntiau trydan, dŵr a goleuo. Er nodi mae gwaith trydanol heb ei gwblhau oherwydd costau ychwanegol wedi codi. Gobeithio nid oes amhariad ar y gwasanaeth oherwydd elfen y gwaith yma.

• Darparwr golchi dillad newydd wedi gosod peiriannau newydd yn y golchdy, gyda’r gwasanaeth ddi-arian yn gweithio yn dda.

• Roedd gosod y cei tanwydd yn fwy o waith na ddisgwylir oherwydd cymhlethdod cysylltiadau a strwythurau y cei tanwydd newydd. Popeth yn gweithio yn iawn rŵan, gyda dau pod talu yn ei le, arbed unrhyw drafferth os yw un ddim yn gweithio

• Wedi ail-ffensio'r storfa cychod i gwmni masnachol ger y doc oherwydd dirywiad i’r ffens a’r llawr, wrth gryfhau'r elfen diogelwch gan ystyried lladrata sydd wedi digwydd yn ddiweddar.

• Costau arolwg sefyllfa pontŵns yn angenrheidiol tuag at adroddiad buddsoddiad tymor hir i’r Hafan/Harbwr.

Mae cyfanswm gwariant o’r cronfeydd yn cael ei nodi yn y crynodeb cyllideb atodol.

**1.4 Ffioedd a Thaliadau 2024/25**

Mae ffioedd a'r taliadau arfaethedig ar gyfer Harbwr Hafan a Phwllheli ar gyfer tymor 2024/2025 wedi ei setio. Mae'r ffioedd wedi codi yn unol â'r cyfraddau chwyddiant a osodwyd gan yr awdurdod lleol, Cyngor Gwynedd.

Maent yn cynyddu 8.01% ar gyfer cwsmeriaid Hafan, tra mae cost taliadau trydan yn gostwng 42.5%. Mae’r ffi i’r Harbwr Allanol yn cynyddu 7.45%.

**1.5 Eitemau Gweithredol**

***Mordwyo*** - Mae'r holl Gymhorthion Mordwyo yn Harbwr Pwllheli yn gweithio ac yn eu lle. Does dim "Rybudd i Forwyr" yn weithredol yn Harbwr Pwllheli ar hyn o bryd.

***Ystadegau Harbwr Blynyddol ac ati*** - Mae manylion ystadegau Hafan a Harbwr ar gyfer 2024/25 wedi eu cynnwys gyda'r adroddiad hwn. Mae'r nifer preswyl blynyddol wedi ei gynnal eleni, ac mae'r Hafan yn llawn. Mae'n ymddangos bod rhai newidiadau i'r farchnad o ran galw, gwerthiant a symudiadau. Gwelwyd rhai achosion o ganslo a gwerthu cychod yn yr Hafan/Harbwr yn ddiweddar, a thra bod y rhestr aros yn dal yn iach, mae nifer o’r rhai y cysylltwyd â nhw am angorfeydd wedi gostwng, wedi gofyn am gael eu symud neu wedi cael angorfa yn rhywle arall eisoes.

***Staffio -*** Falch i nodi fod ein Harweinydd Tîm, Andy Green, wedi cychwyn nôl ar gynllun graddol, gydag oriau cyfyngedig. Mae yna heriau o’i flaen dal i fod tra mae o yn gwella a chryfhau, ond rydym yn cynnig pob cefnogaeth iddo ddod 'nôl i’w swydd yn llawn amser. Yn y cyfamser bydd y tîm yn parhau efo arwain ar rhai agweddau o’i waith.


Rydym hefyd yn falch fod ein Is-Reolwr/Harbwrfeistr, Wil Williams, efo ni am gyfnod estynedig, tra mae o wedi cymryd ymddeoliad hyblyg, fydd yn parhau i gynorthwyo a chefnogi'r tîm i gynnal yr Hafan a'r Harbwr, gan weithio 3 diwrnod yr wythnos.


Rydym wedi penodi un Cymhorthydd Harbwr Tymhorol ychwanegol, gyda Lyndsey Rees yn ymuno a'r tîm, bu iddi weithio efo ni'r flwyddyn ddiwethaf. Bydd yn aelod allweddol i'r tîm dros gyfnod prysur yr haf.


***Cynllun Strategol*** - Hoffwn ddechrau gan ddiolch i bawb fydd yn mewnbynnu i'r ymgynghoriad i ymwneud a'r cynllun strategol hirdymor. Mae gwaith di gorffen ar y cynllun, ac mae'r drafft gorffenedig gyda'r Cyngor i ystyried y camau nesaf. Bydd adroddiad llafar o'r diweddariad ar gael yn y cyfarfod.


**Ystadegau Blynyddol *Hafan Pwllheli* - i Chwefror 2024**


**Cychod Blynyddol/Annual Residents**





350
300
250
200
150
100
50
0
234
244
236
232
249
236
242
224
301
302
307
68
50
56
55
57
56
57
15
77
106
90
2013
2014
2015
2016
2017
2018
2019
2020
2021
2022
2023
Byw yng Ngwynedd/Living in Gwynedd
Dim yn lleol/non local



Nifer o gychod ar yr rhestr diddordeb mewn angorfa - No. of vessels on the Expressions of Interest
250
200
150
100
50
0
74
74
0
0
0
0
0
75
232
2015
2016
2017
2018
2019
2020
2021
2022
2023



Nifer o gychod ymwelwyr mewn blwyddyn - No. of visiting vessels per year
1600
1400
1200
1000
800
600
400
200
0
1326
1519
1359
1310
1076
910
1327
707
733
2015
2016
2017
2018
2019
2020
2021
2022
2023

**Ystadegau Blynyddol *Harbwr Pwllheli* - i Mawrth 2023**

**Cytundeb Blynyddol**



| HAFAN PWLHELI | Perfformiad Ariannol am y cyfnod 1 Ebrill 2023 at 31 Mawrth 2024 - Adolygiad Tachwedd 2023 | | |
|---|---|---|---|
| | CYLLIDEB 1/4/23 at 31/3/24 | GWARIANT A RHAGWELIR 1/4/23 at 31/3/24 | GOR (TAN) |
| Gweithwyr | £350,090 | £350,519 | £429 |
| | | | |
| Eiddo | £554,340 | £597,354 | £43,014 |
| | | | |
| Trafnidiaeth | £13,340 | £10,710 | -£2,630 |
| | | | |
| Gwasanethau a Cyflenwadau | £131,350 | £104,731 | -£26,619 |
| | | | |
| Gwariant Un Tro - Ariannu o Cronfeydd yr Adran | £0 | £227,631 | £227,631 |
| | | | |
| **Cyfanswm Gwariant** | **£1,049,120** | **£1,290,945** | **£241,825** |
| | | | |
| Incwm | -£1,807,680 | -£1,850,554 | -£42,874 |
| Cyfraniad o Cronfeydd | £0 | -£227,631 | -£227,631 |
| | | | |
| **Cyfanswm Net** | **-£758,560** | **-£787,240** | **-£28,680** |

| HARBWR PWLLHELI | Perfformiad Ariannol am y cyfnod 1 Ebrill 2023 at 31 Mawrth 2024 - Adolygiad Tachwedd 2023 | | |
|---|---|---|---|
| | CYLLIDEB 1/4/23 at 31/3/24 | GWARIANT A RHAGWELIR 1/4/23 at 31/3/24 | GOR (TAN) |
| Gweithwyr | £32,280 | £31,297 | -£983 |
| | | | |
| Eiddo | £14,470 | £11,305 | -£3,165 |
| | | | |
| Trafnidiaeth | £850 | £0 | -£850 |
| | | | |
| Gwasanethau a Cyflenwadau | £13,420 | £5,522 | -£7,898 |
| | | | |
| **Cyfanswm Gwariant** | **£61,020** | **£48,124** | **-£12,896** |
| | | | |
| Incwm | -£43,700 | -£44,470 | -£770 |
| | | | |
| **Cyfanswm Net** | **£17,320** | **£3,654** | **-£13,666** |